

# Taflen Ffeithiau 1: Cyflwyniad i Daliadau Uniongyrchol

## Beth yw Taliadau Uniongyrchol?

Os yw Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint yn cytuno bod arnoch angen cymorth ychwanegol i fodloni eich anghenion gofal a chefnogaeth, efallai y bydd y cyngor yn gallu cynnig **arian** i chi yn hytrach na **gwasanaeth**. Gallwch wario'r **arian** ar gael y **gefnogaeth** rydych ei hangen. Mae hwn yn cael ei alw'n Daliad Uniongyrchol.

Gallwch ddefnyddio eich Taliad Uniongyrchol i drefnu cefnogaeth sy'n iawn i chi a'ch ffordd o fyw a'ch amgylchiadau personol.

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn golygu y gallwch gael mwy o ddewis o ran pwy sy'n eich cefnogi, sut maent yn eich cefnogi a phryd maent yn eich cefnogi.

Mae trefnu cefnogaeth yn y ffordd hon yn eich helpu i aros mewn rheolaeth o'ch sefyllfa eich hun a'r penderfyniadau a wnewch yn eich bywyd. Un o'r prif fanteision yw gallu trefnu cefnogaeth hyblyg a allai newid yn dibynnu ar eich cynlluniau. Golyga hyn eich bod yn gallu bancio oriau a defnyddio cymorth ychwanegol pan fo'i angen arnoch.

Mae pobl eraill yn Sir y Fflint yn defnyddio eu taliadau uniongyrchol ar gyfer:

- Cefnogaeth gyda **bywyd dyddiol** a **gweithgareddau**
- Cefnogaeth i **fynd hwnt ac yma**
- Cefnogaeth gyda **gofal personol**
- Cymorth sy'n helpu i gyflawni **nodau personol**
- Parhau yn **annibynnol**
- Gwneud **pethau** gyda **phobl** eraill

Mae mwy a mwy o bobl yn cael cyfle i gael Taliad Uniongyrchol, ac mae nifer ohonynt yn dweud wrthym fod Taliadau Uniongyrchol wedi newid eu bywydau er gwell.

Mae cael Taliad Uniongyrchol yn benderfyniad personol a fydd yn eich galluogi i gyflawni ansawdd bywyd gwell, gobeithio.

Rydym yn ymroddedig i ddarparu'r holl wybodaeth a chefnogaeth sydd ei hangen arnoch i wneud penderfyniad sy'n iawn i chi.

Mae gennym dîm Taliadau Uniongyrchol profiadol yn y cyngor sydd yno i'ch cefnogi gydag unrhyw ymholiadau neu wybodaeth sydd ei hangen arnoch. Byddwn yn rhoi cymaint o gymorth a sicrwydd a phosib i chi, nes eich bod yn teimlo'n hyderus i reoli trefniadau eich hun.

**Mae Cyngor Sir y Fflint eisiau i'ch Taliad Uniongyrchol fod yn llwyddiant, felly peidiwch â phoeni, byddwn yn gweithio gyda chi i sicrhau eich bod yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch.**

Mae ystod eang o wybodaeth a chefnogaeth ar gael i'ch helpu i gael y canlyniadau gorau o'ch taliadau uniongyrchol.

Cofiwch – Mae'r Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol yma i'ch helpu, felly cysylltwch â nhw.

**Gwasanaeth Cefnogi Taliadau Uniongyrchol**

**Rhif ffôn:** 01352 701100

**E-bost:** [dp.support@flintshire.gov.uk](mailto:dp.support@flintshire.gov.uk)